O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 2 (Cy. 2)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanbryn-mair, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed	*2 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*13 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ionawr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanbryn-mair, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:00 o'r gloch ar 13 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd wrth y bont reilffordd i'r gorllewin o Lanbryn-mair yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4518 i ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, yr U2300, sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Pentremawr.